# Fframio gwaith Grŵp Her Sero Net 2035 Cymru

## Sero net 2035 a llwybr cytbwys y CCC

Mae'r IPCC wedi rhybuddio na fydd yn bosibl atal y system hinsawdd rhag chwalu heb drawsnewidiadau cymdeithasol a diwydiannol eang ar frys, ym mhob cenedl ac ar bob graddfa. Mae llwybr cytbwys y CCC yn cynrychioli'r ymdrech fwyaf cynhwysfawr a manwl i ddeall a disgrifio beth allai trawsnewidiadau o'r fath ei olygu i Gymru. Heb fod yn rhagnodol ynghylch dewisiadau polisi, mae'n tynnu ar ystod eang o ddata a thystiolaeth i sefydlu sut y gellid cyflawni Cymru niwtral o ran allyriadau yn 2050.

Mae'r senario sero net canlyniadol yn dychmygu gweithredu cydlynol ar bob lefel – o'r Llywodraeth i unigolion – ac mae'n golygu newid ar raddfa fawr a thrawsnewidiol o fewn y degawd nesaf, gyda dwy ran o dair o'r gostyngiadau allyriadau yn cael eu cyflawni erbyn 2035.

Ac ers i'r CCC gynhyrchu'r cyngor hwn yn 2020, mae'r cyd-destun wedi newid mewn ffordd sy'n gwneud y dasg hon yn anos. Mae gwrthdaro yn Ewrop, gyda tharfu dilynol ar farchnadoedd ynni a bwyd rhyngwladol, a'r effeithiau y mae hyn wedi'u cael ar economi'r DU, sydd eisoes yn fregus, yn golygu bod yr adnoddau sydd ar gael i fynd i'r afael â'r her o gyflawni sero net yn brin. Mae'r amser, yr arian a'r gofod sydd ar gael i unigolion, busnesau, a'r llywodraeth wedi'u buddsoddi mewn mynd i'r afael â'r argyfyngau uniongyrchol a'u heffeithiau, gyda'r risg y bydd y newid trawsnewidiol a ddychmygir yn y llwybr cytbwys yn cael ei ohirio ymhellach.

Er gwaethaf hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud sero net yn flaenoriaeth, ac mae eisoes yn weithgar wrth geisio arwain ac ysgogi eraill i wireddu'r newidiadau sydd eu hangen. Nid yw'n gyfan gwbl o fewn gallu Llywodraeth Cymru i siapio'r amgylchedd polisi a chyllidol yn y ffordd y gallai fod eisiau o ystyried ei huchelgeisiau, ond serch hynny mae ganddi rôl hanfodol i'w chwarae o ran cyflawni sero net.

Yn erbyn y cefndir hwn y gofynnodd Llywodraeth Cymru i Grŵp Her Sero Net Cymru 2035 roi cyngor ar sut i gyflymu'r newid hwn. Mae'r nodyn hwn yn ystyried beth allai hyn ei olygu i'r ffordd y mae'r Grŵp yn cyfeirio ei waith. Mae'n ymddangos mai'r cwestiwn allweddol yw sut i flaenoriaethu: os mai'r uchelgais yw gwneud mwy, a symud yn gyflymach, ble gall Llywodraeth Cymru ychwanegu'r gwerth mwyaf o ystyried y cyd-destun, a locws ei gweithrediad?

## Cyflymu cynnydd yn erbyn y llwybr cytbwys

Mae cyngor CCC yn amlygu nifer fach o feysydd ffocws allweddol yng Nghymru ac ar gyfer Llywodraeth Cymru:

- Cefnogi newidiadau mewn amrywiaeth o ymddygiadau unigol (teithio a deiet yn bennaf);
- Cyflymu'r defnydd o ddatrysiadau carbon isel ar lefel aelwyd (ar gyfer gwres ac ynni), ac ar draws ystod o sectorau (yn arbennig amaethyddiaeth a gweithgynhyrchu);
- Buddsoddiad seilwaith ar raddfa fawr mewn trafnidiaeth (ar gyfer cerbydau trydan ac i gefnogi newid moddol), ac mewn cynhyrchu a chyflenwi trydan; a
- Newid y ffordd y caiff yr amgylchedd tir a morol eu rheoli.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn dilyn agendâu polisi ym mhob un o’r meysydd hyn, ond a oes lle i wneud mwy? Neu a oes angen ychwanegu at neu newid ei ddull gweithredu? A oes meysydd y gallai eu dad-flaenoriaethu er mwyn rhyddhau capasiti i ganolbwyntio ar y meysydd sydd â’r potensial i gael yr effaith fwyaf? A phe bai ond yn gallu cynyddu ei hymdrechion mewn un maes, pa faes ddylai hwnnw fod?

Neu efallai y byddai'n well canolbwyntio ar ddarparu cyngor ar gyflymu'r cyflawni? Hyd yn oed lle gallai Llywodraeth Cymru fod wedi nodi’r ymyriad polisi gorau posibl, nid oes sicrwydd y bydd yn cael ei weithredu’n llwyddiannus, ac efallai y bydd angen ailgynllunio’r polisi er mwyn cyflymu cynnydd. Gan nad yw’r un o’r meysydd a nodwyd yn rhai lle gall Llywodraeth Cymru weithredu ar ei phen ei hun, bydd angen iddi gydlynu camau gweithredu ar draws cymdeithas Cymru, a chynnig her a chymorth i annog hyn; rhywbeth y mae pob llywodraeth yn cael trafferth ei wneud yn effeithiol. A yw'r mecanweithiau sydd eu hangen ar gyfer hyn ar waith? A oes meysydd lle mae cyflawni ei gynlluniau mewn perygl? Sut y gall oresgyn rhai o'r heriau strwythurol y mae'n eu hwynebu (fel diffyg cyfryngau Cymreig i allu cyfathrebu â'r cyhoedd)?

## Ehangu'r lens y tu hwnt i gyngor CCC

Mae cyngor CCC wedi'i wreiddio mewn dadansoddiad o ffynonellau allyriadau (y rhestr allyriadau), gyda'r canlyniad ei fod yn edrych fesul sector ar y dulliau posibl o leihau allyriadau. Er bod hyn yn hanfodol i ddeall sut i gyrraedd sero net, nid yw'r dadansoddiad yn ystyried yn fanwl y rhyng-gysylltiadau a'r materion trawsbynciol sy'n llifo o geisio cyflawni sero net, ac nid yw'n honni gwneud hynny chwaith. Mae'r rhain yn cynnwys risgiau posibl, fel camau gweithredu sy'n arwain at waethygu'r anghydraddoldebau presennol. Yn ogystal â'r angen am gamau gweithredu trawsbynciol (er enghraifft, ar gyllid, neu ar gynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd), a'r potensial am ddatrysiadau mwy arloesol neu radical. Gyda gwaith y Grŵp yn cael ei fframio gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, mae angen i’w ddull gweithredu ganolbwyntio’n ehangach nag y mae’r dadansoddiad o’r rhestr allyriadau yn ei ganiatáu.

Mae rhai wedi beirniadu llwybr cydbwysedd y CCC am beidio â bod yn ddigon uchelgeisiol. I fod yn glir, byddai cyflawni’r llwybr cytbwys yn arwain at newidiadau sylweddol yn y ffordd y mae pob un ohonom yn ymddwyn, gartref, yn y gwaith, ac yn y gymuned. Ond, wrth adeiladu ei llwybr bu'n rhaid i'r CCC wneud rhagdybiaethau sy'n agored i'w herio. I roi dwy enghraifft:

- Mae’r llwybr cytbwys yn rhagdybio mai’r dyddiad cynharaf posibl ar gyfer rhoi’r gorau i werthu boeleri nwy newydd yng Nghymru yn raddol yw 2033. Mae hyn yn seiliedig ar yr angen i gynyddu marchnadoedd pympiau gwres a chadwyni cyflenwi o’r lefelau isel presennol, sefydlu sylfaen sgiliau, a chwblhau rhaglen ôl-osod helaeth i baratoi stoc tai Cymru ar gyfer y newid i wresogi carbon isel. Nid yw hyn yn golygu nad yw dyddiad cynharach ar gyfer rhoi terfyn ar werthu boeleri nwy newydd yng Nghymru, yn ddamcaniaethol, yn bosibl. Ac a allai cynllun 'sgrap' annog pobl i newid boeleri nwy cyn iddynt fethu a bod angen cael rhai newydd yn eu lle?
- Mae modelu CCC yn pwysleisio'r defnydd o fesurau technolegol dros fesurau ymddygiadol a chymdeithasol i leihau allyriadau; gyda dros 70% o arbedion allyriadau yn y llwybr yn cael eu hysgogi gan ddatrysiadau technolegol, o gymharu â 16% trwy leihau'r galw am weithgarwch allyriadau-ddwys a gwelliannau effeithlonrwydd. Mae hyn yn adlewyrchu tybiaethau ynghylch faint o newid cymdeithasol ac ymddygiadol sy'n gredadwy (ac, i raddau, yn ddymunol) o fewn yr amserlen. Ond a allwn ni ragweld, er enghraifft, mynd ymhellach na'r gostyngiad mwyaf tybiedig o 35% yn y cig a'r llaeth sy’n cael ei fwyta erbyn 2050? Neu a oes lle i symud mwy oddi wrth ddefnyddio ceir preifat nag y mae'r CCC yn ei ddychmygu?

Mae’r ail o’r rhain yn cyffwrdd â dadl ddyfnach ynghylch a yw ein model economaidd presennol (yn ogystal â’r systemau cymdeithasol a gwleidyddol sy’n rhyngweithio ag ef ac yn ei gefnogi) yn gyson â chyflawni sero net. A ddylem fod yn ailgynllunio ein ffordd o fyw yn radical i hyrwyddo lles dynol a lles ein planed?

## Llywio'r cymhlethdod

Felly, i ddychwelyd at y cwestiwn a ofynnwyd yn gynharach ynghylch sut y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu. Mae cymhlethdod y materion y mae gofyn i'r Grŵp weithio arnynt yn cuddio symlrwydd ymddangosiadol y cwestiwn hwn. A dyma, felly, dasg gyntaf y Grŵp – penderfynu sut i lywio’r cymhlethdod.

Cynigiaf dri adlewyrchiad yn y gobaith y byddant yn cynorthwyo’r drafodaeth:

- Mae'r gorwel amser sy'n rhan o gylch gwaith y Grŵp yn un ffordd o ganolbwyntio ei waith. Erbyn i waith y Grŵp ddod i ben, bydd 2035 ychydig dros ddegawd i ffwrdd, a bydd Llywodraeth Cymru o fewn 24 mis olaf ei thymor etholiadol. Mae’n iawn i fframio’r broblem mewn perthynas â llesiant cenedlaethau’r dyfodol, ond dylai’r Grŵp fod yn rhoi cyngor ar gamau y gallai’r Llywodraeth fod yn eu cymryd ar unwaith i gyflymu newid hirdymor.
- Wrth feddwl am sut i gynghori unrhyw lywodraeth, mae'n werth meddwl sut yr ydych yn rhyngweithio â'i hagenda bresennol. Pa gyfleoedd sydd ar y gweill – cynlluniau i ddatblygu polisi neu ddeddfwriaeth – sy’n werth eu targedu? Sut mae dilyn yr agenda hon yn rhyngweithio â (ac yn ddelfrydol yn cefnogi) blaenoriaethau eraill y llywodraeth?
- Er bod y testun blaenorol yn awgrymu dewis rhwng y llwybr cytbwys a chymryd lens ehangach, nid yw'r rhain yn annibynnol ar ei gilydd. Gall y gwaith manwl sydd wedi'i gyflawni ar y llwybr cytbwys lywio unrhyw ystyriaeth ehangach o'r materion hyn, a dylai wneud hynny hefyd. Efallai mai ffrâm fwy defnyddiol yw ystyried edrych ar yr heriau o gyflawni sero net yn systematig: defnyddio offer a mewnwelediadau meddwl trwy systemau i nodi dibyniaethau a phwyntiau lifer posibl neu alluogwyr allweddol na all newidiadau eraill ddigwydd hebddynt. Byddai'r cyngor a'r dadansoddiad y mae'r CCC wedi'u darparu yn amhrisiadwy wrth fynd ar drywydd hyn, yn anad dim o ran helpu i lunio a llywio cwestiynau am y cymysgedd cywir o bolisïau a sut i’w cyflawni.

## Gwybodaeth am Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y ganolfan, rydym yn cydweithio ag arbenigwyr polisi blaenllaw i roi tystiolaeth a chyngor annibynnol o ansawdd uchel i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sy’n eu helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisi.

Mae'r Ganolfan, a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, wedi’i lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn aelod o Rwydwaith ‘What Works’ y DU.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Dan Bristow**

+44 (0)29 2087 5345

info@wcpp.org.uk